BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

# Cynllun Cenedl Cymru

2024-25



# Cynnwys

3 Y tri piler o'n Cynllun
4 Hysbysu a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
5 Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
6 Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu
7 Gweithio gyda'n partneriaid
8 Cynghorau'r Cenedl
9 Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig
10 Symleiddio sut rydym yn mesur llwyddiant

Mae Cynllun Cenedl Cymru yn amlinellu ein cynllun gweithredol dros y flwyddyn i ddod. Mae'n nodi'n glir ac yn gryno sut y byddwn yn cefnogi cyflogwyr i recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnynt, nawr ac yn y dyfodol.

Eleni byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau a fydd yn dechrau trawsnewid y system sgiliau ar gyfer y diwydiant adeiladu, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau a bennwyd gan gyflogwyr. Datblygwyd y tri piler gan dynnu ar adborth cwsmeriaid a rhanddeiliaid o'n Hymgynghoriad Diwydiant 2023.

**PDF Rhyngweithiol**

Cliciwch ar elfennau rhyngweithiol i lywio drwy'r ddogfen. Cliciwch ⋮ i lywio yn ôl i'r dudalen gynnwys hon

# Y tri piler o'n Cynllun

Mae tair rhan o'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r system sgiliau gyfan. **Mae cynaliadwyedd yn allweddol i lwyddiant ein Cynllun; felly, y mae wedi ei wreiddio yn ein tri piler.**




SYSTEM SGILIAU A HYFFORDDIANT

## 1 HYSBYSU A GALLUOGI POBL AMRYWIOL A MEDRUS I MEWN I ADEILADU

Bydd ein gwaith yn helpu i leihau'r prinder sgiliau trwy gynyddu cefnogaeth i gyflogwyr recriwtio, adeiladu mwy o lwybrau amgen i ddiwydiant a helpu cyflogwyr i gadw ac uwchsgilio eu gweithlu presennol.

GWELD →

## 2 DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDI A SGILIAU I DDIWALLU ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Mae'r system sgiliau yn hanfodol i allu cyflogwyr a diwydiant i hyfforddi. Mae angen iddo esblygu i ddiwallu anghenion y diwydiant adeiladu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. I wneud hyn, byddwn yn sefydlu diffiniad o gymhwysedd sy'n eiddo i'r diwydiant ac yn nodi llwybrau mynediad diwydiant amgen.

GWELD →

## 3 CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU

Bydd CITB yn rhagweld ac yn ymateb i anghenion hyfforddi nawr ac yn y dyfodol drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant gweithlu presennol sy'n gweithio i ddiwydiant ac ail-gydbwyso ein cyllid i gyflogwyr yn unol â blaenoriaethau'r diwydiant, gan ddarparu cymhellion i gyflogwyr hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu. Ar yr un pryd byddwn yn goresgyn rhwystrau i hyfforddiant yn ogystal â mynd i'r afael â bylchau yn uniongyrchol trwy feithrin partneriaethau agosach â darparwyr hyfforddiant, gan helpu i wella ansawdd a hygyrchedd hyfforddiant.

GWELD →

← EIN TRI PILER





# 1 Hysbysu a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Mae angen cyflenwad cryf o dalent ar adeiladu. Bydd ein hymyriadau yn helpu i gael gwared ar rwystrau i ddenu'r dalent orau.

**Yng Nghymru, byddwn yn:**

**Parhau i ddarparu gwybodaeth gyrfaoedd ddigidol hunanwasanaeth am ddim drwy ein gwefan dwyieithog Am Adeiladu.**

**Denu a rhoi'r cyfle i dros 800 o fyfyrwyr/dysgwyr llawn amser gyda'r cyfle i ddysgu** am sut mae adeiladu'n gweithio'n ymarferol trwy ein partneriaid yn cyflwyno digwyddiadau mewnwelediad i'r diwydiant, gan gynnwys Open Doors, Gweld eich Safle, Dyfodol Proffesiynol a digwyddiadau Menywod mewn Adeiladu.

**Hwyluso a chefnogi dros 1000 o fyfyrwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau ymwybyddiaeth gyrfa Adeiladu yn ystod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau.**

**Hyrwyddo ac ehangu ein Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol ar gyfer rhannu arfer gorau wrth ddarparu allbynnau gwerth cymdeithasol.**

**Ehangu ein rhwydwaith o Lysgenhadon STEM** i 80 yng Nghymru (gan gynnwys 8 siaradwr Cymraeg) i gefnogi gweithgareddau gyrfa a hyrwyddo'r cyfleoedd ym maes Adeiladu.

**Parhau i gefnogi a hyrwyddo'r nifer sy'n astudio TGAU a Lefel A Adeiladu yng Nghymru.**

**Parhau i hyrwyddo a chefnogi'r cystadlaethau Skill-Build yng Nghymru.**

**Parhau i ariannu a chefnogi ein 3 Hwb Sgiliau ar y Safle yng Nghymru** i ddarparu profiad gwaith ymarferol a chyfleoedd porth i oedolion sy'n awyddus i gael gwaith ym maes Adeiladu.

**Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu genedlaethol CITB,** gyda chefnogaeth timau ymgysylltu lleol i annog a chefnogi cyn-droseddwyr, ymadawyr gwasanaeth milwrol a NEETs i yrfa ym maes adeiladu.

**Parhau i ddarparu ymyriadau NEST (Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid)** i gefnogi 100 o gyflogwyr i recriwtio prentisiaid drwy gynorthwyo gyda'u holl ofynion recriwtio, gan gynnwys cyrchu grantiau a sicrhau darpariaeth hyfforddiant addas.

PILER DATBLYGU → 2

← EIN TRI PILER



# 2 Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Nid yw'r system sgiliau bresennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallai ar gyfer y diwydiant adeiladu. Nododd ein Hymgynghoriad Diwydiant fod 'creu llwybrau mynediad ychwanegol' yn flaenoriaeth bwysig i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau.

**Er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon i gyflogwyr byddwn yn:**

**Datblygu Fframweithiau Cymhwysedd newydd i gwmpasu mwy o alwedigaethau.** Bydd gennym fframweithiau ychwanegol ar waith sy'n ymdrin â gofynion sgiliau'r diwydiant. Bydd Fframweithiau Cymhwysedd yn diffinio'r Wybodaeth, Sgiliau, Profiad ac Ymddygiad (KSEB) sydd eu hangen i gynnal gweithgareddau swydd penodol i safon ddiwydiannol drosglwyddadwy.

**Datblygu, profi a threialu'r gyfres gyntaf o Lwybrau Amgen i Gymhwysedd.** Byddant yn cyfuno rhaglenni hyfforddi ac asesu strwythuredig ac yn eistedd ochr yn ochr â phrentisiaethau i ddod â newydd-ddyfodiaid ychwanegol ac amrywiol i lefel gymhwysedd trosglwyddadwy.

**Cyhoeddi a chynnal mapiau cymwysterau a hyfforddiant** ar gyfer galwedigaethau blaenoriaeth, gan gynnwys gosod brics, gwaith saer a gwaith coed. Bydd y wybodaeth hon yn helpu cyflogwyr ac unigolion i nodi cyfleoedd dilyniant a gofynion ar gyfer rolau penodol.

**Cydweithio ag ECITB, diwydiant a gweithredwyr cynlluniau cardiau** i gefnogi gallu cyflogwyr i dystiolaethu, cofnodi a rhannu manylion am alluoedd a dysgu gydol oes eu gweithlu.

**Cefnogi lansio Prentisiaethau Gradd Adeiladu newydd yng Nghymru.**

**Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru** i ddylanwadu ar strategaeth ariannu i alinio anghenion sgiliau'r diwydiant.

**Gweithio gyda'n partneriaid Coleg AB** i archwilio a chyflwyno darpariaeth arbenigol newydd yng Nghymru ar gyfer Prentisiaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i'w gyflwyno mewn canolfannau yn Lloegr yn unig.



PILER CYMORTH → 3

EIN TRI PILER



# 3 Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

Er mwyn cael diwydiant adeiladu llwyddiannus mae'n rhaid i gyflogwyr ac unigolion allu cael mynediad at hyfforddiant cywir, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn iddyn nhw. Rhaid iddo hefyd fod yn fforddiadwy, yn enwedig i gwmnïau bach a chanolig.

**Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:**

**Ehangu'r ddarpariaeth o'n Rhwydweithiau Cyflogwyr lleol ledled Cymru.**

**Lansio cynlluniau sector newydd sy'n cyflawni gwaith hanfodol i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr.** Yn 2024-25, byddwn yn lansio Cynlluniau Sgiliau Sector ar gyfer y sector Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella (RMI) yn ogystal â'r sectorau Masnachol, Cyhoeddus a Diwydiannol.

**Dechrau adeiladu rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant** a fydd yn gweithredu fel ffocws ar gyfer darparu cefnogaeth CITB i gyflogwyr. Yn ystod 2024-25, byddwn yn gweithio'n helaeth gyda darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid i nodi sut y bydd y rhwydwaith newydd hwn yn gweithredu ac yn hyrwyddo'r manteision.

**Datblygu a gweithredu ymyriadau i helpu i fynd i'r afael â phrinder tiwtoriaid ac aseswyr yn y diwydiant.**

**Gwella ein cyllid ar gyfer y Rhaglen Gymhwysol Arbenigol (SAP) i wella hygyrchedd hyfforddiant ar gyfer grwpiau llai o ddysgwyr.**

**Dylunio, datblygu a phrofi gwasanaeth Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant (TNA) newydd ar gyfer busnesau bach.** Bydd y gwasanaeth yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.




EIN TRI PILER

# Gweithio **gyda'n partneriaid**

Mae angen ymagwedd gydweithredol ar yr heriau sy'n wynebu adeiladu a byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yng Nghymru.

## CYFLOGWYR

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr i'w hannog ac i gefnogi'r nifer sy'n manteisio ar sgiliau a hyfforddiant. Ochr yn ochr â'r mentrau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eleni, bydd cyflogwyr yn gallu cael mynediad at CITB yn y ffyrdd canlynol:

## TÎM YMGYSYLLTU Â CHWSMERIAID

Mae ein tîm o gynghorwyr ar gael i'n holl gwsmeriaid, i'w helpu gyda'r pethau mawr sy'n bwysig a'r pethau bach sy'n gwneud gwahaniaeth. Gall Cynghorwyr CITB ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar gyfer cael mynediad at hyfforddiant, grantiau, cyllid a phrentisiaethau CITB. Gallant gyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth, cymorth a chyngor, gan gynnwys partneriaid lleol, rhwydweithiau a mentrau lleol eraill.

## TÎM CEFNOGI NEWYDD-DDYFODIAID

Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno ein Tîm Cefnogi Newydd-ddyfodiaid yng Nghymru. Maent yn cefnogi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig a busnesau sydd wedi eu datgysylltu â'r broses o logi prentis gan gynnwys sicrhau bod y cyflogwr yn cael mynediad at yr holl gyllid y mae ganddynt hawl iddo. Maent yn darparu cymorth prentisiaeth cynhwysfawr i gyflogwyr a gallant helpu i ddod o hyd i ymgeisydd, cael mynediad at gyllid a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas.

## GRANTIAU A CHYLLID

Mae CITB yn darparu grantiau i gyflogwyr y diwydiant adeiladu i gefnogi hyfforddiant ar gyfer eu gweithlu. Mae'r Cynllun Grantiau yn helpu'r diwydiant i gynnal safonau uchel, gan sicrhau bod pobl yn cael eu hyfforddi yn y sgiliau cywir i'r diwydiant ffynnu, ac rydym wedi dyrannu dros £100m (ledled Prydain) i grantiau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
Yn ogystal â'n Cynllun Grant, rydym hefyd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau penodol. Gall cyflogwyr gael gafael ar gyllid i gefnogi profiadau hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel i'w gweithwyr. Mae ein Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant a'n Cronfa Effaith ar y Diwydiant ar agor ar gyfer ceisiadau, ac mae dros £10m wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau a ariennir eleni.



# Cynghorau'r Cenedl

Mae ein Cyngor Cenedl yn un ffordd rydym yn cydweithio ac yn ymgynghori â diwydiant i'n helpu i sicrhau bod ein gwaith yn diwallu anghenion cyflogwyr yng Nghymru.

Cefnogir y Cynllun hwn gan Gyngor Cenedl Cymru ac mae'n cynnwys ymyriadau a phrosiectau penodol yn unol â thair blaenoriaeth CITB.



# **Sefydliadau a Ffederasiynau** Rhagnodedig

Mae ein partneriaethau cryf a chadarnhaol gyda Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig yn allweddol i gyflawni ein Cynllun, a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu safonau.

**Byddwn yn parhau i weithio gyda Sefydliadau Rhagnodedig gan ganolbwyntio gwaith cydweithredol ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:**

- PRENTISIAETHAU A NEWYDD-DDYFODIAID
- SGILIAU ARBENIGOL
- GRWPIAU HYFFORDDI A DYFODOL RHWYDWEITHIAU CYFLOGWYR
- GWELLA CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR COFRESTREDIG YN BARHAUS
- SERO NET

# Symleiddio sut rydym yn mesur llwyddiant

Mae'r holl fentrau a phrosiectau a nodir yn ein Cynllun Cenedl Cymru yn bwydo i mewn **i'n mesurau perfformiad newydd** a nodir yn ein Cynllun Busnes cyffredinol.

Bydd y system fesur symlach hon yn darparu'r gallu i olrhain cynnydd a nodi lle mae angen i ni addasu ein cynlluniau i gyflawni ar gyfer y diwydiant adeiladu. Bydd ein holl weithgareddau ac ymyriadau yn Lloegr yn cyfrannu tuag at gyflawni o leiaf **un o'r tri mesur hyn:**

**15%**
O GYNNYDD YN NIFER Y NEWYDD-DDYFODIAID I'R DIWYDIANT

**14%**
O GYNNYDD YN NIFER Y CYFLOGWYR SY'N CAEL EU CEFNOGI I HYFFORDDI AC UWCHSGILIO EU GWEITHLU

**13%**
O GYNNYDD YN NIFER YR UNIGOLION SY'N CAEL EU CEFNOGI I HYFFORDDI AC UWCHSGILIO

**Datganiad ymrwymiad y Gymraeg:**
Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae gwasanaethau ac adnoddau ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.
Bydd Polisi Iaith Gymraeg CITB yn sicrhau y bydd y sefydliad yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni ein prif ymrwymiad – sef na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn hybu defnyddio'r iaith a fydd yn cael effaith gadarnhaol nid yn unig ar ein cyflogwyr a rhanddeiliaid Cymreig ond ar bobl Cymru gyfan.




GALLWCH DDARLLEN MWY AM EIN MESURAU DRWY YMWELD Â'N **CYNLLUN BUSNES**.